**Y Gyfarwyddiaeth Addysg,**
**Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**
**Llinell uniongyrchol:** 01656 642617
**Gofynnwch am :** EDSU

**Dyddiad**: 1 Medi 2026

Annwyl riant/gofalwr

**Ehangu cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgol uwchradd (Blwyddyn 7 ac 8)**

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am newidiadau i gymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgol uwchradd ym Mlwyddyn 7 ac 8 o ddechrau blwyddyn ysgol 2026-2027.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bwriad i ehangu cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgol uwchradd mewn aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, drwy ddileu'r trothwy incwm presennol.

Fel rhan o gam cyntaf y rhaglen genedlaethol hon, bydd disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 sy'n mynychu ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y mae eu teuluoedd yn derbyn Credyd Cynhwysol, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, waeth beth fo incwm yr aelwyd.

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol uwchradd sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ond yn ei gael os yw eu teulu yn derbyn Credyd Cynhwysol a bod incwm net blynyddol yr aelwyd o dan £7,400 (ac eithrio budd-daliadau). Mae Llywodraeth Cymru yn dileu'r cap incwm hwn, gan ganiatáu i fwy o deuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gael prydau ysgol am ddim.

Bwriad ei ehangu yw helpu i fynd i'r afael â thlodi plant, cefnogi cyllidebau teuluol, gwella lles a chwalu rhwystrau dysgu trwy sicrhau bod mwy o blant yn cael pryd maethlon yn ystod y diwrnod ysgol.

Bydd angen i deuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol wneud cais am yr hawl newydd os nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Bydd manylion ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u cyfathrebu'n uniongyrchol i ysgolion a theuluoedd ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd 2026-2027, ym mis Medi 2026.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

www.penybontarogwr.gov.uk/prydau-ysgol-am-ddim

https://www.penybontarogwr.gov.uk/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/grantiau-ar-gyfer-disgyblion-ysgol/prydau-ysgol-am-ddim/

Yn gywir

Robin Davies
Rheolwr Grŵp (Strategaeth, Perfformiad a Chymorth)

Ffôn/Tel: 01656 643643 Facs/Fax: 01656 668126 Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council
Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Education, Early Years and Young People Directorate**
**Direct line:** 01656 642617
**Ask for:** EDSU

**Date**: 1 September 2026

Dear parent/carer

**Expansion of free school meal eligibility for secondary school pupils (Year 7 and 8)**

I am writing to inform you of changes to free school meal eligibility for secondary school pupils in Year 7 and 8 from the start of the school year 2026-2027.

Welsh Government has confirmed its intention to expand free school meal eligibility to secondary school pupils in households receiving Universal Credit, by removing the current income threshold.

As part of the first phase of this national programme, Year 7 and Year 8 pupils attending Bridgend County Borough Council schools, whose families receive Universal Credit will be eligible for free school meals, regardless of household income.

Currently, most secondary school pupils are only eligible for free school meals if their family receives Universal Credit and have an annual net income below £7,400 (excluding benefits). Welsh Government is removing this income cap, allowing more families receiving Universal Credit to access free school meals.

The expansion is intended to help tackle child poverty, support family budgets, improve wellbeing and remove barriers to learning by ensuring more children have access to a nutritious meal during the school day.

Families receiving Universal Credit will need to apply for the new entitlement if they are not currently in receipt of free school meals.

Bridgend County Borough Council is working closely with Welsh Government to ensure the successful implementation of the scheme.

Additional details will be published on the Council's website and communicated directly to schools and families at the start of the new 2026-2027 school year in September 2026.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

www.penybontarogwr.gov.uk/prydau-ysgol-am-ddim

https://www.bridgend.gov.uk/residents/schools-and-education/grants-for-school-pupils/free-school-meals-fsm/

Yours faithfully

Robin Davies,
Group Manager (Strategy, Performance and Support)

Ffôn/Tel: 01656 643643 Facs/Fax: 01656 668126 Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.